# Cymysgu deunydd sain i fodloni gofynion creadigol

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud â chymysgu deunydd sain i fodloni gofynion creadigol. Mae'r safon hon yn canolbwyntio'n bennaf ar y gwaith cymysgu mewn stiwdios recordio cerddoriaeth ond fe all fod yn berthnasol i gyd-destunau eraill hefyd.

Mae'r safon hon yn ymwneud â dewis a defnyddio technegau awtomateiddio, defnyddio adnoddau rheoli, defnyddio trawfyrddau cymysgu, cynnal ffactorau cynnydd a chreu cymysgeddau.

Mae'r safon hon ar gyfer peirianwyr recordio a rhaglenwyr sy'n cymysgu deunydd sain i fodloni gofynion creadigol.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. dewis technegau awtomateiddio sy'n bodloni'r gofynion creadigol
2. gosod a chadarnhau systemau awtomateiddio gofynnol yn unol â chyfarwyddiadau'r gwneuthurwyr
3. defnyddio adnoddau rheoli priodol i fewnforio, golygu a rheoli data awtomateiddio
4. llwybro ac allanu signalau drwy drawfyrddau cymysgu a recordio i fodloni gofynion

1. dilyn gweithdrefnau i ddefnyddio trawfyrddau cymysgu heb eu difrodi
2. defnyddio trawfyrddau cymysgu a recordio yn unol â gofynion diogelwch yn ymwneud â rheoli sŵn
3. creu cymysgeddau a recordiadau stereo sy'n bodloni'r gofynion creadigol
4. cynnal ffactorau cynnydd sy'n cyflawni uchderau targed wrth leihau sŵn ac ystumiad
5. ail-osod ac adalw cymysgeddau awtomataidd i fodloni'r gofynion
6. tacluso ac ail-osod pob man pan fydd y gwaith wedi'i gwblhau

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. gwybodaeth am y gofynion creadigol
2. prif wneuthurwyr a mathau a nodweddion trawfyrddau cymysgu a recordio
3. y mathau o drawfyrddau y mae gwahanol sectorau cerddoriaeth a sain eu hangen gan gynnwys recordio mewn stiwdio, stiwdios cymysgu, trawfyrddau rhaglennu, darlledu, Teledu, AV, trawfyrddau radio, recordio byw symudol, theatr, perfformiadau a sain fyw a system sain (PA)
4. y gwahanol fathau o gynlluniau stiwdios a sut i weithio ynddyn nhw
5. llwybrau signalau cadwyn trawfyrddau cymysgu a recordio a sut gall signalau dreiddio mewn, teithio trwodd ac ymadael
6. sut i adnabod camau llwybro signalau cyffredin trawfyrddau cymysgu a recordio
7. y prif wahaniaethau rhwng trawfyrddau recordio a chymysgu hollt, uniongyrchol a digidol
8. y berthynas rhwng adrannau meistroli stereo a sianelau sengl
9. y rhesymeg dechnegol ac ymarferol ynghlwm â sianelau mewnbwn, mesur, llwybro, adrannau cydraddoli, adrannau monitro, grwpiau, cordiau tonnog, sain-gyfeirio ac adrannau'r prif recordiad
10. egwyddorion systemau awtomateiddio, data golygu awtomateiddio ac awtomateiddio fel adnodd cynhyrchu gan gynnwys technegau awtomateiddio fel aml-effeithiau a meddalwedd dynamig
11. prif nodweddion trawfyrddau cymysgu gallwch eu hawtomateiddio a sut i osod ac ysgrifennu awtomatiaeth a'i chwarae ar systemau cymysgu seiliedig ar feddalwedd a systemau cymysgu seiliedig ar galedwedd
12. technegau awtomateiddio a'r paramedrau ynghlwm ag ysgrifennu a chwarae data awtomateiddio
13. dulliau awtomateiddio a'r ffyrdd caiff awtomateiddio amser real, graffigol a sgrînlun eu golygu
14. ystod, egwyddorion, prif ddatblygiadau a chymhariaeth o adnoddau rheoli sain gan gynnwys rhai awtomateiddio a hybrid
15. egwyddorion cymhareb signal-sŵn a sut i addasu ffactorau cynnydd i gyflawni hynny
16. sut i recordio signalau wedi'u crynhoi ar gymysgeddau stereo

Cymysgu deunydd sain i fodloni gofynion creadigol

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | ScreenSkills |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 30 Maw 2020 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 31 Maw 2024 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Creative and Cultural Skills |
| **RCU gwreiddiol** | CCSMT19 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Rheolwyr Stiwdio, Peirianwyr Meistroli, Peirianwyr Recordio, Cynhyrchwyr Recordio, Peirianwyr Cymysgu, Peirianwyr Cynorthwyol, Peirianwyr Darllediadau tu allan / ôl gynhyrchu, Gweithredwyr Tapiau, Cyfansoddwyr Cerddoriaeth Ffilm, Ysgrifenwyr, Cyd- ysgrifenwyr, Artistiaid, Peirianwyr Cynnal a Chadw, Rolau cefnogaeth dechnegol ar gyfer Recordio Sain a Thechnoleg Cerddoriaeth, Peirianwyr Sain Fyw, Peirianwyr Golygu, Cyfansoddwr Canigau, Golygwyr Ffilm, Lleoliad / Mannau perfformiadau Systemau Sain, Gosodiadau |
| **Cyfres/Set** | Recordio Sain a Thechnoleg Cerddoriaeth |
| **Geiriau Allweddol** | Cymysgedd; Cymysgu; Deunydd sain; Gofynion creadigol; Sain; Cerddoriaeth; Recordio Sain; Technoleg Cerddoriaeth |